NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ibrutinib i drin macroglobwlinemia Waldenstrom

22 Tachwedd 2017

Argymhellir ibrutinib (Imbruvica) ar gyfer rhai pobl sydd â macroglobwlinemia Waldenstrom. Siaradwch â'ch meddyg am ragor o wybodaeth.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- WMUK, 0208 281 6477
- Cymdeithas Lymffoma, 01296 619400
- Gofal Lewcemia, 08088 010 444

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2351-9
© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights